**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cabinet

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 9 Ionawr 2020** am **10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorydd |
|---|---|---|
| D H Hopkins | E J King | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Thomas | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid/Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd: S Pritchard.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: R Francis-Davies, A S Lewis ac A Pugh

---

## 115. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd M C Child gysylltiad â Chofnod Rhif 21 "Safleoedd Blaendraeth - Crynodeb o Ymatebion Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chaffael a'r Camau Nesaf" - Aelod Ward West Cross.

## 116. Cofnodion

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2019.

## 117. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor

Cyfeiriodd Arweinydd y cyngor gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Sybil Crouch. Bu Sybil yn gwasanaethu cymuned Ward y Castell, bu'n gydymaith i

Arglwydd Faer Abertawe a bu'n allweddol wrth hybu'r celfyddydau a diwylliant yn Abertawe.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor hefyd gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar cyn-Gynghorydd Sirol Gorllewin Morgannwg, Ioan Stock.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

## 118. Cwestiynau gan y cyhoedd

Cyflwynywd nifer o gwestiynau ymlaen llaw yn ymwneud â Chofnod Rhif 121 "Safleoedd Blaendraeth - Crynodeb o Ymatebion Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chaffael a'r Camau Nesaf", a Chofnod Rhif 122 "Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol: Cynigion Cyllidebol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig i'r:

1) Cwestiynau gan Nortridge Perrot mewn perthynas â Chofnod 121.

## 119. Hawl i holi cynghorwyr

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 120. Adborth Craffu Cyn Penderfynu - Safleoedd Blaendraeth - Crynodeb o Ymatebion Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chaffael a'r Camau Nesaf (Llafar)

Cyflwynodd y Cyng. M H Jones yr Adborth Craffu Cyn Penderfynu.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

## 121. Safleoedd Blaendraeth - Crynodeb o Ymatebion Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chaffael a'r Camau Nesaf

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ar ran Aelod y Cabinet dros Fuddsoddiad, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd o Ymgynghoriad Cyhoeddus y cyngor a'r
Hysbysiad o wybodaeth Flaenorol ynghylch potensial datblygu pum safle blaendraeth a chadarnhau'r camau nesaf.

Cadarnhaodd Arweinydd y cyngor fod yr holl ymatebion wedi'u hystyried, gan gynnwys y rheini o natur fasnachol sensitif.

Cynigiwyd a chytunwyd ar y diwygiad i argymhelliad 6 i gynnwys yr Arweinydd yng nghwmpas yr awdurdod dirprwyedig.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Gwaredu'r safle a adwaenir fel Rhan o Gyrtiau Tennis Bae Langland drwy brydles hir ar y telerau mwyaf priodol;

2) Ni chaiff unrhyw ddatblygiad i'r safle a adwaenir fel y Tir Gerllaw y West Cross Inn ei ystyried mwyach;

3) Bydd unrhyw ddatblygiad i'r safle a adwaenir fel y Tir wrth y Ramp Sglefrfyrddio yn destun ystyriaeth a diwydrwydd dyladwy pellach.

4) Ymchwilir ymhellach i'r posibilrwydd o ddatblygu'r safle a adwaenir fel y Tir ym Maes Parcio Lôn Sgeti, gyda'r nod o'i farchnata yn 2020;

5) Ymchwilir ymhellach i'r potensial i ddatblygu'r safle a adwaenir fel Lido Blackpill, gyda'r nod o'i farchnata yn 2020;

6) Dirprwyir penderfyniadau pellach i symud ymlaen â datblygiadau i Arweinydd y Cyngor, y Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth.

## 122. Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol: Cynigion Cyllidebol 2020/21 – 2023/24

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid ac Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ystyried cynigion cyllidebol ar gyfer 2020/21 i 2023/24 fel rhan o strategaeth cyllideb bresennol y cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cynigion cyllidebol a grynhowyd yn yr adroddiad ac y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad fel sail ymgynghoriad;

2) Mabwysiadu'r rhagolwg cyllidebol diweddaredig ar gyfer y dyfodol fel y rhagosodiad cynllunio cychwynnol ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig, a gaiff ei ystyried gan y cyngor ar 5 Mawrth 2020;

3) Cytuno ar yr ymagwedd at ymgynghori ac ymgysylltu â staff, undebau llafur, preswylwyr, partneriaid a phartïon eraill â diddordeb fel y'u hamlinellir yn Adran 7 yr adroddiad;

4) Derbyn adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r cynigion cyllidebol terfynol yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2020.

## 123. Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 2 2019-20.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2, 2019/20.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 124. Adolygiad Blynyddol o Daliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol) 2019/20 (Taliadau'n berthnasol yn 2020/21 - yn dechrau ar 1 Ebrill)

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda adroddiad a oedd yn nodi adolygiad blynyddol o daliadau Cyngor Abertawe (Gwasanaethau Cymdeithasol), sy'n darparu tryloywder i ddinasyddion ynghylch sut mae'r cyngor yn arfer ei bwerau disgresiynol ar bennu taliadau, o fewn fframwaith statudol Llywodraeth Cymru ar godi tâl am wasanaethau cymdeithasol, y cytunwyd arno fel rhan o ofal a chefnogaeth a reolir.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o daliadau, ac ni roddir unrhyw daliadau gwasanaeth newydd (gwasanaethau cymdeithasol) ar waith yn 2020/21;

2) Rhoi'r cynnydd chwyddiannol o 5% ar gyfer holl daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol ar waith;

3) Gweithredu'r cynnydd mewn taliadau gofal cartref, fel a gytunwyd gan y Cyngor yn flaenorol, yn effeithiol o 1 Ebrill 2020, ar gyfer y flwyddyn 2020/21;

4) Y bydd y rhestr o daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol yn berthnasol o 1 Ebrill 2020, ar gyfer y flwyddyn 2020/21.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn - Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Cofnodion a gyhoeddwyd: | 10/01/2020 |
| Cyfnod galw i mewn yn dod i ben (3 diwrnod gwaith clir ar ôl eu cyhoeddi): | 23.59 15/01/2020 |
| Daw'r penderfyniad i rym ar; | 16/01/20 |